| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cyngor |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 10 Mai 2016 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd; y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad, ac Alan Smith, Pennaeth Gwella a Moderneiddio Busnes |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Alan Smith - Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio |
| **Teitl:** | Cynllun Corfforaethol 2012-17, Dogfen Gyflawni Blwyddyn 5 (2016-17) |

## 1. Beth yw cynnwys yr adroddiad?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno Dogfen Gyflawni Blwyddyn 5 (2016-17) ar gyfer the Corporate Plan 2012-17.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1 Mae angen penderfyniad i gymeradwyo fersiwn terfynol o Ddogfen Gyflawni Blwyddyn 5 y Cynllun Corfforaethol, sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir bod yr Aelodau'n cymeradwyo drafft terfynol y Ddogfen Gyflawni (Atodiad 1) er mwyn iddi gael ei chyhoeddi.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Caiff Dogfen Gyflawni ei chreu ar gyfer pob blwyddyn o'r Cynllun Corfforaethol. Ei diben yw amlinellu rhai o'r prosiectau allweddol a fydd yn cael eu cychwyn a/neu eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn ariannol ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau, gyda'r bwriad o ddangos sut y mae'r Cynllun Corfforaethol yn effeithio ar y gwaith rydym yn ei wneud. Bydd y ddogfen (atodiad 1) yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan a bydd copïau caled ar gael yn ein prif dderbynfeydd a llyfrgelloedd fel ei bod ar gael i'n rheoleiddwyr, y cyhoedd a phartneriaid.

4.2 Mae'r gweithgareddau yn deillio o Gynlluniau Gwasanaethau a Rhaglenni. Bydd cynnydd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a'r Cabinet drwy ein Adroddiadau Perfformiad Chwarterol. Bydd arfarniad cyffredinol o gynnydd y Cyngor o ran cyflawni'r Cynllun Corfforaethol yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiadau Perfformiad Blynyddol a gyhoeddir bob mis Hydref.

4.3 Mae'r gweithgareddau a amlygir yn Nogfen Gyflawni Blwyddyn 5 wedi'u cynllunio i gael effaith gadarnhaol ar ein Blaenoriaethau Corfforaethol a lles y gymuned.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r Ddogfen Gyflawni yn nodi'r gweithgaredd y mae'r cyngor wedi'i gynllunio ar gyfer 2016-17 i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn cynnwys strategaeth ariannol pum mlynedd sy'n amlinellu y buddsoddiad cyfalaf a ragwelir sydd ei angen i gyflawni'r blaenoriaethau. Mae Dogfen Gyflawni Blwyddyn 5 yn cynnwys adran ar y goblygiadau ariannol ar gyfer 2016-17.

**7. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed EqIA wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad**

7.1 Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC) ar y Cynllun Corfforaethol a'i gyflwyno i'r Cyngor ar 9 Hydref 2012. Nid oes angen unrhyw Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb penodol ar gyfer yr adroddiad hwn ei hun, ond bydd angen i Benaethiaid Gwasanaeth ystyried effaith cydraddoldeb gweithgareddau unigol a grybwyllir yn y ddogfen hon er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael unrhyw effaith andwyol anghymesur ar bobl sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae'r Ddogfen Gyflawni wedi cael ei ddatblygu o weithgaredd a nodwyd o'r Cynlluniau Gwasanaeth ar gyfer 2016-17 (y cytunwyd arnynt gydag Aelodau Arweiniol) ac o Gynlluniau Rhaglen. Mae gweithgareddau wedi'u diffinio a'u mireinio ymhellach drwy drafodaethau gyda phersonél allweddol sy'n ymwneud â'r gwaith o'u cyflawni. Cafodd drafft ei ddosbarthu i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Aelod Arweiniol dros Gyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad ar gyfer sylwadau cyn ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Mae Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn nodi ein blaenoriaethau uchelgeisiol, ond posibl, ar gyfer y cyfnod pum mlynedd. Mae'r cyllid i gyflwyno cynllun buddsoddi o £132.5m wedi ei sicrhau ac felly mae modd cyflawni'r blaenoriaethau yn ariannol. Disgwylir gwariant ar weithgareddau cyfalaf y Cynllun Corfforaethol erbyn diwedd 2015/16 i fod yn £24m gyda disgwyl am £31m pellach yn y flwyddyn ariannol bresennol. Mae cynlluniau argyfwng o fewn y Cynllun wedi'u cynyddu'n ddiweddar i sicrhau bod rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cael ei chyflawni yn Rhuthun. Mae'r cyngor wedi cynnal y flaenoriaeth o gyflwyno'r Cynllun Corfforaethol tra'n gorfod gwneud arbedion mewn mannau eraill o tua £28m yn ystod y cyfnod hynny. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn gadarn yn ariannol ac yn ariannu'n llawn.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Nid oes unrhyw risgiau penodol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Swyddogaeth y Gofrestr Risg Corfforaethol a'r Gofrestr Risg Gwasanaethau yw dynodi (a rheoli) digwyddiadau posibl o risg a allai olygu na fyddai'r cyngor yn gallu cyflawni ei Gynllun Corfforaethol.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn elfen allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella (2010), sy'n cael ei gefnogi gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.